WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyhoeddwyd: Mawrth 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 203A2016



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Jeremy Evans a Margaret Maxwell o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

| | |
|---|---|
| Yr adroddiad hwn | 4 |
| Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 | 5 |
| Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, gan ddangos uchelgais yn ei weledigaeth, gydag arweinyddiaeth gyfunol a threfniadau llywodraethu mwy cadarn a thryloyw, yn gwella canlyniadau i'w ddinasyddion er y gall rhai dulliau gweithredu sydd wedi dyddio gyfyngu ar gyflymder cynnydd | 6 |
| Argymhellion | 6 |

## Adroddiad manwl

Perfformiad

| | |
|---|---|
| Mae'r Cyngor, mewn cydweithrediad â phartneriaid ac er gwaethaf pwysau cynyddol ar gyllidebau, yn parhau i wella perfformiad yn ei feysydd â blaenoriaeth ac wedi cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009 | 9 |

Y defnydd o adnoddau

| | |
|---|---|
| Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei adnoddau wedi ateb y diben yn y gorffennol, ond mae'r dull gweithredu presennol mewn rhai meysydd wedi dyddio ac nid yw'n gydgysylltiedig, a all gyfyngu ar gyflymder cynnydd tuag at wella canlyniadau i ddinasyddion | 17 |

Llywodraethu

| | |
|---|---|
| Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran sefydlu trefniadau llywodraethu gwell sydd bellach yn fwy cadarn a thryloyw, er bod cyfleoedd i wneud gwelliannau pellach er mwyn galluogi Aelodau i gyflawni eu rolau yn fwy effeithiol | 19 |

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn | 20 |
| Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol | 21 |
| Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16 | 24 |

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Gorffennaf 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd). Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Wrth bennu'r amrywiaeth o waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso'r Cyngor ei hun. Yn ystod 2015-16, gwnaethom gyflawni gwaith asesu gwelliant o dan dair thema: perfformiad, y defnydd o adnoddau a llywodraethu.

6 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', isod:

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Cydnerthedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. |
| Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. |
| Archwiliad o 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad. |
| Adroddiad Blynyddol AGGCC | Adolygiad Blynyddol o swyddogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. |
| Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o allu ac adnoddau'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus. |
| Asesiad o Berfformiad Swyddfa Archwilio Cymru | Asesiad o berfformiad mewn perthynas â dau o Amcanion Blaenoriaeth Gwella Allweddol y Cyngor, er mwyn deall a yw adroddiadau cyhoeddus y Cyngor ar ei berfformiad yn deg a chytbwys. |
| Gwaith dilynol | Rhoi sicrwydd bod gan y Cyngor brosesau corfforaethol priodol ar waith ar gyfer ymateb i adroddiadau, olrhain y modd y caiff argymhellion eu gweithredu a chyflwyno adroddiadau ar hyn i'r pwyllgor priodol. |
| Adroddiadau Cenedlaethol | • Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru<br>• Partneriaethau diogelwch cymunedol<br>• Cynhyrchu incwm a chodi tâl<br>• Y modd mae cynghorau'n ariannu gwasanaethau'r trydydd sector |

## Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, gan ddangos uchelgais yn ei weledigaeth, gydag arweinyddiaeth gyfunol a threfniadau llywodraethu mwy cadarn a thryloyw, yn gwella canlyniadau i'w ddinasyddion er y gall rhai dulliau gweithredu sydd wedi dyddio gyfyngu ar gyflymder cynnydd

7 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur a sicrhau gwelliant yn ystod 2016-17. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a mae'r Cyngor, mewn cydweithrediad â phartneriaid, yn parhau i wella perfformiad yn ei feysydd â blaenoriaeth ac wedi cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009;

b mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei adnoddau wedi ateb y diben yn y gorffennol, ond mae'r dull gweithredu presennol mewn rhai meysydd wedi dyddio ac nid yw'n gydgysylltiedig, a all gyfyngu ar gyflymder cynnydd tuag at wella canlyniadau i ddinasyddion; ac

c mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran sefydlu trefniadau llywodraethu gwell sydd bellach yn fwy cadarn a thryloyw, er bod cyfleoedd i wneud gwelliannau pellach er mwyn galluogi Aelodau i gyflawni eu rolau yn fwy effeithiol.

## Argymhellion

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

9 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol.

10 Nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion newydd yn yr adroddiad hwn ac ni wnaethom unrhyw argymhellion newydd yn ein hasesiad corfforaethol llawn a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016. Fodd bynnag, gwnaethom nifer o gynigion ar gyfer gwella yn yr adroddiad ar yr asesiad corfforaethol y byddwn yn eu monitro fel rhan o'n gwaith parhaus.

11 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i Gynghorau yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o argymhellion perthnasol mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2015-16 yn Atodiad 3.

12 Yn ogystal, nododd AGGCC, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg feysydd i'w gwella yn eu hadroddiadau arolygu a'r llythyrau a gyhoeddwyd ganddynt i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Gellir eu gweld yn www.aggcc.org.uk, www.estyn.llyw.cymru a www.comisiynyddygymraeg.cymru.

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Mae'r Cyngor, mewn cydweithrediad â phartneriaid ac er gwaethaf pwysau cynyddol ar gyllidebau, yn parhau i wella perfformiad yn ei feysydd â blaenoriaeth ac wedi cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009

13 Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009 a chyhoeddwyd tystysgrifau cydymffurfio ar y cyd ar gyfer Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2015.

14 Mae adroddiadau cyhoeddus ar berfformiad yn deg a chytbwys. Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella yn glir ac maent yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni, y cynnydd y mae'n ei wneud a sut mae ei berfformiad yn cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Esbonnir uchelgeisiau ehangach y Cyngor ar gyfer y gymuned a blaenoriaethau gwella yn glir yn ogystal â chyfraniad partneriaid at y gwaith o'u cyflawni. Cyflwynir pob canlyniad â blaenoriaeth yn gyson, gan nodi'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud a'r hyn y mae'n anelu at ei gyflawni, ynghyd â'r mesurau allweddol y bydd yn eu defnyddio i fonitro cynnydd.

15 Mae'r adolygiad cyfunol o berfformiad yn y gorffennol a'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd nesaf o fewn un ddogfen yn galluogi'r darllenydd i gael darlun cytbwys o ba mor dda y mae'r Cyngor yn perfformio. Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella yn hirfaith ac yn fanwl ac mae crynodeb defnyddiol hefyd. Gyda'i gilydd maent yn darparu'r holl wybodaeth y gallai fod ar y darllenydd ei hangen. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella a'r crynodeb yn Gymraeg a Saesneg, gyda threfniadau priodol ar gyfer cyhoeddusrwydd. Mae'n hawdd dod o hyd i'r adroddiad ar wefan y Cyngor.

### Mae'r Cyngor yn ystyried argymhellion y rheoleiddwyr cenedlaethol ond mae lle i ddefnyddio canfyddiadau yn fwy systematig a chyson i ategu gwelliant yn well

16 Er bod y Cyngor yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion rheoleiddwyr allanol, mae cryn amrywiad rhwng gwasanaethau gwahanol yn y ffordd yr ystyrir argymhellion ac arfer da. Ceir rhai gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn gorfforaethol i lywio'r hyn a ddisgwylir gan Bennaeth y Gwasanaeth er mwyn sicrhau y caiff argymhellion eu hystyried yn briodol, ond mae'r graddau y caiff arfer da a nodwyd ei fabwysiadu yn ddewisol i raddau helaeth ac nid yw'n destun craffu gwleidyddol fel arfer. O ganlyniad, efallai fod y Cyngor yn colli rhai o'r cyfleoedd a gynigir gan yr astudiaethau hyn i hyrwyddo gwelliant mewn ffordd fwy systematig.

17 Pan nodir adroddiadau allanol gan y tîm perfformiad corfforaethol, fe'u cofnodir a nodir cyfrifoldebau am weithredu ar argymhellion. Disgwylir i Benaethiaid Gwasanaeth ymdrin â chanfyddiadau adroddiadau yn eu cynlluniau busnes, sy'n rhan annatod o fframwaith y Cyngor ar gyfer rheoli'r broses wella. Yn ymarferol, caiff natur, graddau ac amseroldeb ymateb y Cyngor eu pennu gan reolwyr gwasanaethau i raddau helaeth, heb fawr ddim her uniongyrchol i'r broses hon na chraffu ffurfiol ar ei thrylwyredd.

## Mae'r Cyngor, mewn cydweithrediad â phartneriaid, yn glir ynghylch yr hyn y mae am ei gyflawni ar gyfer dinasyddion ac yn gwella ei allu i fonitro'r cynnydd y mae'n ei wneud o ran canlyniadau

18 Caiff y canlyniadau gwell y mae'r Cyngor am eu cyflawni ar y cyd â phartneriaid eu cyfleu'n glir ac fe'u deëllir yn glir gan staff a rhanddeiliaid. Mae hierarchaeth wedi'i halinio'n dda o gynlluniau a strategaethau yn rhaeadru'r canlyniadau hyn yn effeithiol o Strategaeth Gymunedol Integredig (SGI) y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) drwy nifer o strategaethau corfforaethol a strategaethau gwasanaethau i lawr i gynlluniau busnes ac amcanion ar gyfer staff.

19 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu pum canlyniad lefel uchel y SGI a 30 o nodau cysylltiedig fel ei flaenoriaethau ar gyfer gwella dros y pum mlynedd nesaf, a ategir gan flaenoriaethau o ran amcanion gwella allweddol (KIOPs) y rhoddir sylw manylach iddynt bob blwyddyn. Caiff KIOPs eu hadolygu bob blwyddyn er mwyn ystyried y cynnydd a wnaed a sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i welliant. Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi dwy flaenoriaeth arall er mwyn atgyfnerthu'r ffordd y mae'n gweithredu a gwneud defnydd gwell o adnoddau.

20 Mae canlyniadau lefel uchel yr SGI y mae'r Cyngor am eu cyflawni yn y tymor canolig fel a ganlyn:

- a mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn iachach;
- b mae pobl yn Sir Gaerfyrddin yn cyflawni eu potensial i ddysgu;
- c mae pobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, sy'n gweithio yno ac sy'n ymweld â'r sir yn ddiogel ac yn teimlo'n fwy diogel;
- ch mae cymunedau ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn gynaliadwy; ac
- d mae gan Sir Gaerfyrddin economi gryfach a mwy ffyniannus.

21 Mae'r materion penodol y rhoddir sylw manwl iddynt (KIOPs) yn 2015-16 fel a ganlyn:

- a pobl hŷn: helpu'r nifer gynyddol o bobl hŷn i gynnal eu hurddas a'u hannibyniaeth yn ystod eu blynyddoedd olaf;
- b tai: gwella stoc dai'r Cyngor a helpu pobl i gael gafael ar gartrefi rhent a chartrefi fforddiadwy;
- c addysg: gwella cyrhaeddiad mewn ysgolion; a
- ch threchu tlodi.

22 Mae’r canlyniadau hyn a KIOPs yn rhoi templed clir ar gyfer gweithgarwch gwella’r Cyngor. Fe’u deëllir yn dda gan staff a rhanddeiliaid ac maent yn sail i’r holl weithgarwch casglu data ac adrodd ar berfformiad a gyflawnir i fonitro cynnydd. Mae pob gwasanaeth yn mapio ei gyfraniad at y canlyniadau hyn fel rhan annatod o weithgarwch cynllunio busnes er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at sicrhau gwelliant.

23 Mae’r Cyngor yn defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau i olrhain y cynnydd y mae’n ei wneud. Mae cyfres o 44 o ‘ddangosyddion poblogaeth’ lefel uchel yn galluogi’r Cyngor a’i bartneriaid i fonitro cynnydd yn erbyn canlyniadau’r SGI dros amser. Ni phennir unrhyw dargedau penodol ond caiff tueddiadau eu monitro a’u cymharu â’r tueddiadau hynny mewn cynghorau eraill ledled Cymru. At hynny, mae’r Cyngor wedi dewis set o fesurau allweddol o’r set o ddangosyddion perfformiad (DPau) cenedlaethol sydd ar gael er mwyn monitro yn erbyn canlyniadau’r SGI ac asesu sut mae hyn yn cymharu â chynghorau eraill. Fel arfer caiff cynnydd yn erbyn KIOPs ei asesu drwy fonitro cyfuniad o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt, DPau cenedlaethol a rhai mesurau lleol.

24 Cesglir cryn dipyn o ddata er mwyn helpu’r Cyngor i werthuso effaith ei weithgareddau ar ddinasyddion. Mae’r Adroddiad Blynyddol a’r Cynllun Gwella yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys adborth defnyddwyr, canmoliaeth a chwynion, gwybodaeth gan bartneriaid a barn rheoleiddwyr. Mae adran o’r enw ‘a oes unrhyw un ar ei ennill?’ yn helpu’r Cyngor i ganolbwyntio ar y canlyniadau y mae’n eu cyflawni y mae hefyd yn ei ddangos mewn nifer o astudiaethau achos. Er bod gwybodaeth gan bartneriaid yn cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a’r Cynllun Gwella, mae dadansoddiad y Cyngor o effeithiolrwydd partneriaethau wrthi’n cael ei ddatblygu ymhellach ond ar adeg cynnal ein hadolygiad nid oedd yn ddigonol i werthuso’n briodol p’un a yw’n werth bwrw ymlaen â phartneriaeth ai peidio.

25 Mae’r Cyngor yn graddol wella ei allu i fesur y canlyniadau y mae’n eu cyflawni. Mae rhai gwasanaethau yn adolygu eu dibyniaeth ar DPau, gan ganolbwyntio ar y rhai mwyaf defnyddiol yn unig tra bod eraill yn datblygu eu cyfres eu hunain o ddangosyddion wedi’u teilwra, gan roi mesurau canlyniadau sy’n adlewyrchu anghenion cwsmeriaid yn well yn lle mesurau mewnbwn/allbwn traddodiadol.

## Er gwaethaf pwysau cynyddol ar gyllidebau, mae perfformiad yn parhau i wella ym meysydd blaenoriaeth y Cyngor ac mae lefelau boddhad y cyhoedd â gwasanaethau'r Cyngor yn cynyddu

26 Mae Dangosyddion Perfformiad yn awgrymu bod y Cyngor yn parhau i wella ei berfformiad ac mae hyn, yn ei dro, yn helpu i wella canlyniadau i bobl leol, er gwaethaf y pwysau cynyddol heriol ar gyllidebau y mae'n eu hwynebu. Mae gwasanaethau rheng flaen wedi'u diogelu, o ganlyniad i benderfyniadau cyllidebol a ffyrdd mwy effeithlon o weithio. Mae perfformiad cyffredinol fel y'i mesurir gan DPau yn parhau i wella. Yn ôl dangosyddion cenedlaethol ar gyfer 2014-15 mae perfformiad mewn 60 y cant o DPau uwchlaw cyfartaledd Cymru o gymharu â 51 y cant y flwyddyn flaenorol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd nifer y DPau a wellodd yn fwy na nifer y DPau na wellodd. Gwellodd 56 y cant o DPau, gostyngodd 32 y cant ac arhosodd 12 y cant yn ddigyfnewid. Mae hyn ychydig uwchlaw perfformiad cyfartalog Cymru ac mae angen ei ystyried yng nghyd-destun ehangach cyllidebau sy'n lleihau a lefel perfformiad bresennol y Cyngor yn y dangosyddion hyn.

27 Dengys canlyniadau o Banel y Dinasyddion ac Arolwg Cenedlaethol Cymru fod boddhad y cyhoedd â'r Cyngor yn gwella. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2015 mae 58 y cant o drigolion yn fodlon ar y Cyngor ac yn teimlo ei fod yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, sef gwelliant o bump y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol sy'n golygu ei fod yn y chweched safle allan o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. Mae canlyniadau o Banel y Dinasyddion yn 2014 yn ategu hyn, gyda 58 y cant o bobl yn fodlon ar y Cyngor, sy'n welliant o gymharu â'r 52 y cant a gofnodwyd yn 2012. Mae'r canlyniadau hyn yn galonogol mewn cyfnod o gyni cyllidol cynyddol pan fo angen gwneud penderfyniadau gwario anodd.

28 Mae'n amlwg bod perfformiad yn gwella ym meysydd blaenoriaeth y Cyngor. Ystyrir rhai enghreifftiau cynrychioliadol isod.

## Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran moderneiddio stoc dai'r Cyngor, mynd i'r afael â digartrefedd a sicrhau bod cartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto

29 Mae'r nod o wella amodau tai yn KIOP ac yn cyfrannu at flaenoriaeth Cymunedau Iachach y Cyngor. Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran moderneiddio stoc dai'r Cyngor, mynd i'r afael â digartrefedd a sicrhau bod cartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto. Mae'r rhaglen fuddsoddi gwerth £200 miliwn i foderneiddio stoc dai'r Cyngor bron â'i chwblhau. Mae 88 y cant o gartrefi bellach yn cyrraedd Safon Cartrefi Caerfyrddin ac mae'r Cyngor yn disgwyl i'r holl waith gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2015. Mae adborth cadarnhaol gan denantiaid yn dangos bod 90 y cant yn teimlo bod eu cartref bellach yn diwallu eu hanghenion, o gymharu â 73 y cant yn 2009. Mae 60 y cant o denantiaid yn ei chael hi'n haws talu eu costau byw yn eu cartrefi gwell, o gymharu â 34 y cant yn 2009. Llwyddwyd i ostwng amseroedd ailosod yn sylweddol drwy ymateb i adborth tenantiaid a symleiddio prosesau. Mae hyn wedi gostwng amseroedd ailosod, ar gyfartaledd, o 86 diwrnod i 25 diwrnod dros flwyddyn.

30 Mae nifer o fentrau yn helpu i fynd i'r afael â digartrefedd o dan gynllun Troi Tai'n Gartrefi, Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhanbarth. Nod y cynllun yw cynyddu'r cyflenwad o lety rhent preifat drwy gyfuniad o gyngor a chymorth ariannol i landlordiaid. Mae'r Cyngor hefyd yn llwyddo i sicrhau bod cartrefi gwag yn dechrau cael eu defnyddio unwaith eto. Y llynedd sicrhawyd bod 135 o eiddo yn dechrau cael eu defnyddio unwaith eto, sef 20 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol a'r bumed nifer uchaf yng Nghymru. Perfformiad cyffredinol y Cyngor o ran atal digartrefedd yw'r perfformiad gorau ond un yng Nghymru.

31 Mae'r Cyngor yn ateb yr her enfawr sy'n ei wynebu drwy geisio cau'r bwlch rhwng y galw am gartrefi fforddiadwy a nifer y cartrefi sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd. Dim ond 47 o gartrefi fforddiadwy a adeiladwyd y llynedd, sef un o'r perfformiadau gwaethaf yng Nghymru er y gall perfformiad amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn ac er bod y ffigur hwn yn uwch na'r targed a bennwyd. Lansiwyd strategaeth 10 mlynedd uchelgeisiol ar gyfer tai fforddiadwy yn ddiweddar er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth ac adlewyrchu'r galw lleol yn well o ran deiliadaeth. Mae elfennau allweddol yn cynnwys atal yr Hawl i Brynu er mwyn galluogi'r Cyngor i gadw ei stoc dai, prynu tai a werthwyd eisoes o dan gynllun Hawl i Brynu yn ôl a chroesgymorthdalu tai fforddiadwy newydd drwy ddatblygu tai newydd ar gyfer perchenogaeth breifat. Mae polisïau cynllunio ar waith i gefnogi hyn ond nid ydynt wedi'u profi eto.

## Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion

32 Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn Sir Gaerfyrddin ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Ystyrir hyn wrth werthuso'r perfformiad yn yr awdurdod.

33 Mae perfformiad yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen a dangosydd pynciau craidd cyfnod allweddol 2 wedi gwella'n raddol dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2015, mae perfformiad yn y ddau ddangosydd yn cyfateb, fwy neu lai, i gyfartaledd Cymru.

34 Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn nangosydd y pwnc craidd wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gyfradd debyg i gyfartaledd Cymru. Yn 2015, mae perfformiad yn y mesur hwn ychydig yn well na chyfartaledd Cymru. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad wedi gwella ers 2012 yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg ac yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio. Ar gyfer pob un o'r ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yn y ddau fesur hyn wedi cyflawni'r meincnodau ar gyfer perfformiad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, neu wedi rhagori arnynt.

35 Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella ym mhob un o'r prif ddangosyddion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mae'n agos at y cyfartaledd ar gyfer disgyblion tebyg yng Nghymru.

36 Mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella'n dda dros y tair blynedd diwethaf ac ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf buont yn uwch na'r cyfartaledd ledled Cymru.

## Mae cynnydd da yn cael ei wneud er mwyn helpu i gefnogi blaenoriaeth y Cyngor i sicrhau Amgylchedd Cynaliadwy

37 Mae faint o wastraff y mae'r Cyngor yn ei ailgylchu yn parhau i gynyddu. Mae cynnydd wedi'i wneud mewn camau cynyddrannol cyson dros nifer o flynyddoedd, gyda'r canlyniad bod 59.6 y cant o wastraff wedi'i ailgylchu yn 2014-15. Mae'r perfformiad hwn ymhlith y gorau yng Nghymru ac mae gryn dipyn ar y blaen i darged statudol y flwyddyn nesaf, sef 58 y cant. Ar yr un pryd, bu lleihad sylweddol yn y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, yn bennaf am fod gwastraff gweddilliol yn cael ei anfon ar long i Lychlyn lle y caiff ei losgi er mwyn pweru cynlluniau gwresogi cymunedol. Anfonwyd ychydig dros 18 y cant o wastraff gweddilliol i safleoedd tirlenwi yn 2014-15 o gymharu ag ychydig islaw 38 y cant yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r perfformiad uwchlaw cyfartaledd Cymru a disgwylir iddo wella ymhellach ar ôl i ddata ar gyfer y flwyddyn lawn gael eu cynnwys.

38 Mae ymarferion cnocio ar ddrysau gan dîm o gynghorwyr parhaol wedi llwyddo i gynyddu nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni ailgylchu bwyd mewn ardaloedd a dargedwyd, er bod cyfraddau cyfranogi yn gyffredinol yn dal i fod yn isel ar 34 y cant. Mae'r Cyngor ar fin treialu'r defnydd o fagiau bioddiraddiadwy am ddim ar gyfer biniau ailgylchu bwyd er mwyn ceisio cynyddu cyfranogiad i 60 y cant. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae 85 y cant o bobl yn fodlon ar wasanaeth ailgylchu'r Cyngor, sy'n gydradd drydydd o blith y 22 o gynghorau yng Nghymru. Fodd bynnag, dim ond 60 y cant a deimlai fod y Cyngor yn rhoi gwybodaeth iddynt yn rheolaidd am ei wasanaeth ailgylchu sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae hyn yn awgrymu bod lle i'r Cyngor adolygu effeithiolrwydd ei weithgarwch hyrwyddo.

## Mae gwasanaethau'r Cyngor i oedolion a phlant yn parhau i fod ymhlith y gorau yng Nghymru

39 Cyhoeddodd AGGCC ei Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014-2015 ym mis Hydref 2015 ac mae ar gael ar ei gwefan.

40 Mae AGGCC yn nodi bod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o ran trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu er mwyn lleihau dibyniaeth a hyrwyddo annibyniaeth. Mae'r gwaith o ddatblygu timau adnoddau cymunedol amlddisgyblaeth sydd wedi'u cydleoli â phractisau meddygon teulu yn helpu i osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty a lleihau hyd arosiadau. Mae nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty yn parhau i ostwng er bod perfformiad islaw cyfartaledd Cymru o hyd. Mae'r Cyngor yn gweithio i symud pobl i ffwrdd oddi wrth ddiwylliant o ddibyniaeth, er enghraifft, drwy wneud taliadau uniongyrchol iddynt er mwyn eu galluogi i gael gafael ar eu gofal eu hunain ac mae nifer yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn yn cynyddu'n raddol. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy er mwyn sicrhau bod grantiau cyfleusterau i'r anabl yn cael eu prosesu'n gyflymach ac mae nifer y bobl hŷn sy'n cael cymorth mewn cartrefi gofal yn dal i fod yn rhy uchel, sydd i'w briodoli'n rhannol i'r nifer gynyddol o bobl ag anghenion cymhleth.

41 Mewn gwasanaethau i blant, mae gwasanaethau ataliol wedi'u hatgyfnerthu, gyda nifer o wasanaethau allweddol yn mabwysiadu dull amlasiantaeth o weithio sydd wedi'i fireinio'n fwy.

42 Yn ystod y flwyddyn bu newidiadau o ran uwch swyddogion gyda'r cyfarwyddwr statudol blaenorol a dau bennaeth yn yr adran gofal cymdeithasol i oedolion yn ymddeol. Mae'r uwch swyddogion hyn wedi gadael etifeddiaeth gadarnhaol i'w holynwyr. Mae'r cyfarwyddwr statudol newydd wedi parhau i sicrhau y caiff y blaenoriaethau strategol eu cyflawni'n effeithiol ac mae adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn rhoi darlun cywir o berfformiad y Cyngor ac yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf. Un nod allweddol yw gwella'r ffordd y caiff perfformiad ei reoli, gyda mesurau newydd a gwell defnydd o'r data a gesglir. Mae'r swyddogion mewn gwasanaethau i oedolion a phlant yn parhau i roi arweiniad effeithiol ac maent yn glir ynghylch eu blaenoriaethau. Mae'r Cyngor yn dal i fod ymhlith y gorau yng Nghymru.

## Mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i drechu tlodi, sy'n her fawr, ond heb ei gyfraniad gallai'r sefyllfa fod yn waeth

43 Mae KIOP trechu tlodi yn cefnogi amcan y Cyngor i sicrhau 'Economi Gryfach a mwy Ffyniannus' ac mae'n her fawr i'r Cyngor. Nodwyd bod mwy na 37 y cant o gartrefi Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Cyngor yn cydgysylltu ei ymdrechion ac yn cydweithredu â phartneriaid allanol ac ar draws amrywiaeth o wasanaethau er mwyn mynd i'r afael ag achosion tlodi a chefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi.

44 Drwy Fenter Cymunedau yn Gyntaf mae'r Cyngor yn cefnogi 2,500 o drigolion ar draws 19 o raglenni craidd gwahanol a phedair rhaglen mewn ysgolion. Nod y rhain yw helpu pobl i ddod o hyd i swyddi, gwneud yn well yn yr ysgol, rheoli eu harian yn well a gwella eu lles ffisegol. Mae rhaglen 'Money Sense' yn cyflwyno cysyniadau rheoli arian i blant ifanc ac mae bellach ar gael i bob un o'r 106 o ysgolion drwy wefan benodol. Mae mentrau cyflogaeth megis Gweithffyrdd i unigolion a fu'n ddi-waith am gyfnod hir wedi helpu 43 y cant o'r cyfranogwyr i ddod o hyd swyddi parhaol, gan ragori ar y targed o 35 y cant. Mae'r Cyngor wedi helpu i ddatblygu 11 o glybiau tanwydd ledled y sir a redir gan wirfoddolwyr ac sy'n sicrhau arbedion sylweddol i'w Haelodau. Mae mentrau iechyd a thrafnidiaeth allgymorth megis Bwcabus yn galluogi pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig i fynd i weithgareddau ar ôl ysgol. Fodd bynnag, mae'n anodd gwerthuso canlyniadau penodol o'r ystod hon o weithgarwch.

45 Mae Canolfan wybodaeth un stop yn Llanelli, sef Yr Hwb, yn rhoi cyngor a gwybodaeth wyneb yn wyneb am amrywiaeth o faterion drwy gynnwys 18 o sefydliadau partner gwahanol. Mae'r gwasanaethau yn cynnwys cyfeirio unigolion at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, rheoli ariannol a mynediad digidol am ddim. Mae cynlluniau ar waith i ymestyn y defnydd a wneir ohoni i wasanaethau eraill megis digartrefedd ac ymholiadau tai ac agor rhagor o Ganolfannau yng Nghaerfyrddin a Rhydaman.

46 Mae'n anodd mesur y gwahaniaeth y mae'r Cyngor yn ei wneud i fywydau pobl yn y byrdymor ac mae'r Cyngor yn dibynnu'n fawr ar gamau gweithredu a gwblhawyd ac allbynnau er mwyn mesur y cynnydd y mae'n ei wneud. Ceir rhai tueddiadau cadarnhaol mewn DPau megis prosesu hawliadau budd-daliadau tai a threth gyngor newydd yn gyflymach. Mae'r Cyngor hefyd yn rhagweld y bydd ei waith ar raglenni Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn gwella canlyniadau iechyd ac addysg i blant.

47 Er gwaethaf ymdrechion y Cyngor, mae dangosyddion tlodi allweddol yn parhau i ddangos tuedd o waethygu. Mae nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi yn parhau i gynyddu, sy'n unol â chyfartaledd Cymru. Mae incymau cyfartalog yn gostwng ac maent bellach islaw cyfartaledd Cymru. Mae hyn yn dangos maint yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor a'i bod yn anodd iddo ddangos effaith ei weithredoedd, y gallai'r sefyllfa yn hawdd fod yn waeth hebddynt.

48 Mae'r Cyngor yn benderfynol o wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ac mae wrthi'n atgyfnerthu ei allu i wneud hyn drwy gamau gweithredu mwy strategol a chydgysylltiedig. Mae'n llunio cynllun gweithredu ar drechu tlodi, yn datblygu datganiad cadarnhaol ar weithgarwch presennol, yn mapio cyfranogiad y trydydd sector er mwyn lleihau dyblygu ac yn gwella ei sail wybodaeth am dlodi gwledig. Mae hefyd yn ystyried y strwythur swyddogion priodol i arwain a chydgysylltu'r agenda dlodi yn fwy effeithiol.

## Mae nifer o brosiectau adfywio strategol wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol ac wedi gwella cyfleoedd cyflogaeth

49 Mae nifer o brosiectau adfywio strategol mewn blynyddoedd diweddar wedi cyflawni canlyniadau uchel eu proffil ac wedi gwella cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer yr ardal, gan gyfrannu at nod y Cyngor o sicrhau Economi Gryfach a mwy Ffyniannus. Un o'r prif bethau y mae gweithgarwch adfywio yn canolbwyntio arno yw twf busnesau a chreu swyddi. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor yn amcangyfrif ei fod wedi helpu i greu mwy na 350 o swyddi ac wedi diogelu 210 o swyddi eraill drwy ei bortffolio o gynhyrchion a gwasanaethau a gynlluniwyd ar gyfer y gymuned fusnes. Drwy ddefnyddio grantiau'r Gronfa Fuddsoddi Leol, mae'r Cyngor wedi rhoi cymorth ariannol hyblyg i fusnesau bach a chanolig a mentrau newydd. Yn ôl data'r Cyngor, sicrhaodd y Cyngor £3 miliwn o arian grant er mwyn creu 59 o fusnesau newydd a 419 o swyddi newydd dros gyfnod pum mlynedd y Gronfa Fuddsoddi Leol. Diogelwyd 1,854 o swyddi eraill a oedd yn bodoli eisoes.

50 Caiff gweithgarwch adfywio'r Cyngor ei lywio gan gydweithredu effeithiol â chynghorau cyfagos er mwyn ffurfio Rhanbarth Dinas Bae Abertawe. Er mwyn cefnogi hyn, lansiwyd cynllun adfywio strategol ar gyfer y 15 mlynedd nesaf yn ddiweddar er mwyn hyrwyddo cyfleoedd newydd ar gyfer twf busnesau, datblygu sgiliau, creu swyddi, datblygu'r economi wybodaeth a thwristiaeth. Mae'r cynllun hwn yn ategu gweledigaeth newydd y Cyngor i sicrhau bod adfywio wrth wraidd popeth a wna.

# Y defnydd o adnoddau

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei adnoddau wedi ateb y diben yn y gorffennol, ond mae'r dull gweithredu presennol mewn rhai meysydd wedi dyddio ac nid yw'n gydgysylltiedig, a all gyfyngu ar gyflymder cynnydd tuag at wella canlyniadau i ddinasyddion

51 Mae crynodeb o'n hasesiad o ddefnydd y Cyngor o adnoddau wedi'i gynnwys yma, am ragor o fanylion gweler Adroddiad Asesu Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin.

52 Daethom i'r casgliad y gallai gallu'r Cyngor i ymateb i heriau ariannol yn y dyfodol gael ei lesteirio am nad oes cysylltiad clir rhwng cynlluniau gwasanaethau a chynlluniau ariannol a pherfformiad, nad yw arbedion unigol yn cael eu monitro fel rhan o'r drefn a bod gwendidau mewn prosesau rheoli grantiau yn dal i fod yn destun pryder. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- a mae'r Cyngor yn ymgynghori'n helaeth ar y cynigion ar gyfer arbedion cyllidebol, ac mae tybiaethau cynllunio cynhwysfawr a rhesymol wedi'u gwneud wrth nodi diffyg cyllidebol y Cyngor ar gyfer 2015-16, ond gallai ddefnyddio meincnodi a dangosyddion gwerth am arian er mwyn helpu i nodi meysydd eraill ar gyfer lleihau costau;
- b mae gan y Cyngor hanes da o ran mantoli cyllidebau blynyddol yn erbyn y camau gweithredu arfaethedig a gymeradwywyd ganddo, ond nid yw cynnydd o ran sicrhau arbedion cyllidebol yn ddigon tryloyw am na chyflwynir adroddiadau unigol ar y gwaith o sicrhau arbedion cyllidebol a'r risgiau cysylltiedig;
- c mae trefniadau rheoli a rheolaeth ariannol y Cyngor yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol, ond nid oes cysylltiadau clir rhyngddynt a chynlluniau gwasanaethau a chynlluniau ariannol;
- ch mae'r Cyngor mewn sefyllfa gref o ran cronfeydd wrth gefn 'y gellir eu defnyddio' ac mae wedi'u cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, caiff cronfeydd wrth gefn eu hadolygu'n flynyddol wrth bennu cyllideb flynyddol y Cyngor, ond nid yw'r Aelodau yn cael digon o wybodaeth am gronfeydd wrth gefn na'r penderfyniadau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn; ac
- d mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu polisi'r Cyngor mewn perthynas â chynhyrchu incwm/codi tâl, nid yw'r adolygiad wedi'i gwblhau eto sy'n cyfyngu ar yr effaith y gall y maes hwn ei gael o ran mynd i'r afael â phwysau ariannu;
- dd mae gwendidau mewn prosesau rheoli grantiau yn dal i fod yn destun pryder; ac
- e ni chaiff trefniadau caffael eu dilyn bob amser.

53 Yn ogystal, nodwyd y canlynol:

a mae dull y Cyngor o reoli pobl yn gweithio'n dda ac yn mynd i'r afael â rhai o'r meysydd allweddol sydd angen eu hatgyfnerthu, megis y gwaith strategol o gynllunio'r gweithlu;

b mae gallu'r Cyngor i reoli ei sail asedau yn effeithiol yn cael ei lesteirio ar hyn o bryd gan nifer o ffactorau; ac

c roedd y Cyngor yn araf yn ymateb i'r diffygion sylweddol o ran ei drefniadau TGCh y mae'r Cyngor bellach yn cymryd camau i'w gwella.

## Cyhoeddodd yr archwilydd penodedig farn archwilio ddiamod ar y cyfrifon a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am faterion allweddol i ymdrin â hwy ym mis Medi 2015

54 Ar 10 Rhagfyr 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2. Mae'r Llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, roedd barn yr Archwilydd Cyffredinol ar y datganiadau ariannol yn cynnwys paragraff pwysleisio mater yn deillio o wahaniaeth barn rhwng y Cyngor a'r Archwilydd Penodedig am ddau benderfyniad a wnaeth y Cyngor a arweiniodd, ym marn yr Archwilydd Penodedig, at gynnwys gwariant anghyfreithlon yng ngwybodaeth gymharol 2013-14 yn y Datganiadau Ariannol.

55 Mae'r Archwilydd Penodedig hefyd wedi nodi bod angen gwella dull y Cyngor o brisio asedau, bod angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn adolygu pob un o'i gronfeydd ariannol wrth gefn yn fwy trylwyr ac, fel y nodwyd ers nifer o flynyddoedd, fod angen gwella prosesau rheoli grantiau'r Cyngor. Gan edrych ymlaen, mae'r Archwilydd Penodedig hefyd wedi nodi y bydd setliad cyllidebol diweddar Llywodraeth Cymru, ynghyd ag amrywiaeth o bwysau eraill o ran costau, yn golygu y bydd pob corff llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu sefyllfaoedd ariannol heriol tu hwnt. Nododd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2015 ar gyfer y cyfnod rhwng 2015-16 a 2017-18 arbedion effeithlonrwydd heriol gwerth tua £41.5 miliwn – bydd yn rhaid i'r Cyngor wneud rhai penderfyniadau anodd er mwyn cyflawni'r arbedion hyn.

# Llywodraethu

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran sefydlu trefniadau llywodraethu gwell sydd bellach yn fwy cadarn a thryloyw, er bod cyfleoedd i wneud gwelliannau pellach er mwyn galluogi Aelodau i gyflawni eu rolau yn fwy effeithiol

56 Mae crynodeb o'n hasesiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi'i gynnwys yma, am ragor o fanylion gweler Adroddiad Asesu Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin.

57 Daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran sefydlu trefniadau llywodraethu gwell sydd bellach yn fwy cadarn a thryloyw, er bod cyfleoedd i wneud gwelliannau pellach er mwyn galluogi'r Aelodau i gyflawni eu rolau yn fwy effeithiol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

a mae'r Cyngor yn gwella tryloywder ei drefniadau llywodraethu; ac

b mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei ddull o hyfforddi a datblygu Aelodau ond mae angen gwneud gwelliannau pellach er mwyn helpu Aelodau i gyflawni eu rolau penodol yn effeithiol o fewn trefniadau llywodraethu'r Cyngor.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Emlyn Dole
Arweinydd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

Annwyl Gynghorydd Dole

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Caerfyrddin 2014-15**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau er bod lle i wella o hyd mewn rhai meysydd**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiadau Ariannol yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r Datganiadau Ariannol.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu Datganiadau Ariannol yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015 rhoddais farn archwilio ddiamod gyda pharagraff 'pwysleisio mater' ar y datganiadau ariannol gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor a Chronfa Bensiwn Dyfed. Rhoddwyd barn archwilio debyg yn 2012-13 a 2013-14.

Roedd y paragraff pwysleisio mater yn ymwneud â gwybodaeth gymharol 2013-14 a oedd wedi'i chynnwys yn natganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2014-15 ac nid datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed. Deilliodd y paragraff pwysleisio mater o'r ffaith bod gwahaniaeth barn rhwng y Cyngor a ni ynghylch dau benderfyniad a wnaeth y Cyngor a arweiniodd at gynnwys gwariant anghyfreithlon yn y datganiadau ariannol ar gyfer 2013-14, yn ein barn ni.

Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 30 Medi 2015. Yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio nodwyd gennym fod ansawdd y datganiadau ariannol yn dda. Nodwyd gennym nad oeddem wedi nodi unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol ond ein bod wedi nodi nifer o faterion, y nodir y rhai allweddol isod:

- Rydym wedi nodi rhai gwendidau sylweddol yn null y Cyngor o brisio asedau. Nododd ein profion nifer o gamgymeriadau yn y ffordd roedd asedau'n cael eu prisio ac arweiniodd hyn at leihad o £38.5 miliwn yng ngwerth asedau. Mae'r Cyngor wedi cytuno i wella ei brosesau ar gyfer prisio asedau yn 2015-16.

- Mae gan y Cyngor nifer o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd y mae'n eu hadolygu fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol. O ystyried ein sefyllfa ariannol bresennol, fel rhan o'i broses o bennu'r gyllideb, mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn adolygu cronfeydd wrth gefn yn fwy trylwyr gan sicrhau bod iddynt ddiben clir a bod eu hangen o hyd. Dylid rhyddhau cronfeydd wrth gefn nad oes eu hangen a'u hystyried wrth bennu cyllidebau yn y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi cytuno i wneud gwaith dilynol ar y mater hwn yn 2015-16.

- O fewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, mae gan y Cyngor Gronfa Yswiriant wrth Gefn gwerth £9.6 miliwn. Dylai cyfran o'r gronfa wrth gefn hon gael ei datgelu fel darpariaeth (h.y. atebolrwydd byrdymor ar y fantolen). Ar hyn o bryd ni all y Cyngor fesur y gyfran hon, er ein bod yn fodlon na fyddai'n cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol. Mae'r Cyngor wedi cytuno i wneud gwaith dilynol ar y mater hwn yn 2015-16.

- Ers nifer o flynyddoedd rydym wedi nodi gwendidau o fewn prosesau rheoli grantiau'r Cyngor. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol eisoes wedi cyhoeddi adroddiad beirniadol ar y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli grant Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2015. Mae ein gwaith ar grantiau 2014-15 yn mynd rhagddo a bu gwelliannau mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, rydym wedi nodi pryderon ynghylch rhai o gynlluniau grantiau Ewropeaidd WEFO, y mae WEFO bellach wedi adolygu rhai ohonynt ac wedi cadarnhau eu bod yn gymwys i gael y grantiau hynny. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein gwaith ar grantiau i'r Pwyllgor Archwilio ar ddechrau 2016.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2014-15 wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2015.

**Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.**

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Daeth fy Adroddiad Gwella Blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015 i'r casgliad bod y Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd da yn ei feysydd â blaenoriaeth a'i fod yn gweithio i fynd i'r afael â nifer o faterion llywodraethu. Yn ddiweddar cynhaliwyd Asesiad Corfforaethol manwl o drefniadau'r Cyngor a chaiff ei gyhoeddi ar ddechrau 2016.

Cyflwynir adroddiad ar ein gwaith ar gydnerthedd ariannol ym mis Rhagfyr 2015. Daethom i'r casgliad fod gan y Cyngor hanes da o fantoli'r gyllideb ond bellach mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio'n fwy ar gysoni cynlluniau ariannol â blaenoriaethau corfforaethol ac, er mwyn ategu'r prosesau monitro cyllidebol, sicrhau bod perfformiad yn cael ei ategu gan fframwaith mwy cadarn ar gyfer monitro'r gwaith o gyflawni cynigion ar gyfer arbedion penodol a chyflwyno adroddiadau ar y gwaith hwnnw.

Yn 2014-15 roedd gan y Cyngor alldro terfynol cadarnhaol gyda thanwariant bach o £0.6 miliwn a ostyngodd y swm cynlluniedig a oedd i'w dynnu o'r cronfeydd wrth gefn i £175,000.

Ar lefel adrannol roedd gorwariant bach iawn o £0.4 miliwn. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gostyngodd cronfeydd wrth gefn y Cyngor y gellid eu defnyddio £1.5 miliwn i £82 miliwn (nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn 'wedi'u clustnodi' gan gynnwys y Cyfrif Refeniw Tai, cronfeydd wrth gefn Ysgolion a derbyniadau cyfalaf). Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol 2015-16, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn rhagweld y bydd yn gorwario £0.2 miliwn yn erbyn y gyllideb.

Gan edrych ymlaen, bydd setliad cyllidebol diweddar Llywodraeth Cymru, ynghyd ag amrywiaeth o bwysau eraill o ran costau, yn golygu y bydd pob corff llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu sefyllfaoedd ariannol heriol tu hwnt. Nododd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2015 ar gyfer y cyfnod rhwng 2015-16 a 2017-18 arbedion effeithlonrwydd heriol gwerth tua £41.5 miliwn. Mae'r Cyngor yn wynebu her i gyflawni'r arbedion hyn a bydd yn fwyfwy anodd iddo nodi'r mathau hyn o arbedion yn y dyfodol.

Ar y cam cynllunio y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 oedd £183,995. Rhagwelwn y bydd y ffi archwilio ariannol derfynol tua £187,000 o ganlyniad i'n gwaith ychwanegol ar brofi prisiadau asedau. Mae hyn cael ei drafod ar hyn o bryd â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Yn gywir

**Richard Harries**
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A1 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng ‘cost: budd: effaith’ a defnyddio’r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A1 Gella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i’r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy’n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol.<br><br>A2 Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â’r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt.<br><br>A3 Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli’n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a’r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A4 Atgyfnerthu'r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy'n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd.<br><br>A5 Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol.<br><br>A7 Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru | A6 Dylai cynghorau ddatblygu polisïau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm gyda'r nod o gynyddu ffrydiau refeniw a lleihau pwysau ariannol.<br><br>A7 Dylai cynghorau:<br>• atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol; ac<br>• adolygu cwmpas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol.<br><br>A8 Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau a gallu i fodloni gofynion yn y dyfodol.<br><br>A9 Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel. |
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A1 Egluro natur a gweithrediad consortia. Nodwyd gennym fod ansicrwydd parhaus ynglŷn â rhai agweddau ar natur consortia rhanbarthol a'u cwmpas nawr ac yn y dyfodol (paragraffau 2.2 i 2.20). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Dylai awdurdodau lleol egluro a yw gwasanaethau consortia yn cael eu darparu ar y cyd neu a ydynt yn wasanaethau a gomisiynwyd (mae gwasanaethau a ddarperir o dan drefniadau cydbwyllgor yn wasanaethau a ddarperir ar y cyd ac nid ydynt yn wasanaethau a gomisiynwyd).<br><br>A2 Canolbwyntio ar ganlyniadau drwy waith cynllunio tymor canolig. Nodwyd gennym fod ffocws ar gamau gweithredu byrdymor ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol consortia yn rhwystro'r gwaith o ddatblygu consortia rhanbarthol effeithiol (paragraffau 2.33 i 2.36; 3.16 i 3.17). Felly, rydym yn argymell y canlynol: Gan na chaiff unrhyw raglen bosibl i ad-drefnu awdurdodau lleol ei rhoi ar waith yn llawn tan 2020, dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau tair blynedd ar gyfer datblygu consortia rhanbarthol ymhellach, pennu eu cwmpas a'u cyllid, wedi'u cysylltu ag amcanion strategol priodol. |

<table>
<tr><th>Dyddiad yr adroddiad</th><th>Teitl yr adolygiad</th><th>Argymhelliad</th></tr>
<tr><td>Mehefin 2015</td><td>Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar</td><td>A3 Datblygu cydberthnasau mwy cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion. Cyfrannodd llawer o bartneriaid gwella ysgolion at y gwaith o ddatblygu’r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio’n Rhanbarthol ond nodwyd gennym nad oedd hyn wedi arwain at ddatblygu cydberthnasau digon cydweithredol (paragraffau 2.25 i 2.32). Felly, rydym yn argymell y canlynol:
<ul>
<li>Dylai consortia rhanbarthol ddatblygu trefniadau gwell ar gyfer rhannu arfer a chefnogi effeithlonrwydd (er enghraifft, gallai un consortiwm arwain y gwaith o fynd i’r afael â mater neu gallai fod ganddo gyfrifoldeb gweithredol am ddatblygu polisi).</li>
<li>Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydnabod cyd-ddibyniaeth yr holl bartneriaid wrth gyflawni eu rolau gwella ysgolion a chytuno ar ddull o wneud y canlynol:
<ul>
<li>– rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau sy’n ymwneud â gwella ysgolion ac ymgynghori yn eu cylch;</li>
<li>– datblygu cydberthnasau cydweithredol sy’n seiliedig ar atebolrwydd a rennir; a</li>
<li>– chynnal adolygiadau system gyfan a chysoni’r ddealltwriaeth o gonsortia rhanbarthol a sefyllfa consortia rhanbarthol ym mhob un o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru.</li>
</ul></li>
</ul>
A4 Datblygu arweinwyr effeithiol a denu’r dalent orau. Mae consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru oll wedi’i chael hi’n anodd recriwtio uwch arweinwyr ar gyfer addysg a nodwyd gennym nad oes fawr ddim wedi’i wneud i fynd i’r afael â hyn (paragraffau 2.37 i 2.40). Felly, rydym yn argymell y canlynol:
<ul>
<li>dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithredu i wneud rolau arwain ym maes addysg yn fwy deniadol er mwyn denu’r arweinwyr mwyaf talentog ar gyfer y system gwella ysgolion; a</li>
<li>dylai awdurdodau lleol gydweithredu er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol uwch arweinwyr a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad priodol ar waith ar gyfer uwch arweinwyr.</li>
</ul></td></tr>
</table>

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A5 Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol. Er bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud, nodwyd nad yw consortia rhanbarthol wedi datblygu trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol cwbl effeithiol eto (paragraffau 3.2 i 3.36). Felly, rydym yn argymell y dylai awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol wneud y canlynol:<br>• gwneud gwell defnydd o hunanwerthusiadau o'u perfformiad a'u trefniadau llywodraethu i ategu gwaith cynllunio busnes a'u hadolygiadau blynyddol o drefniadau llywodraethu er mwyn llywio eu datganiadau llywodraethu blynyddol;<br>• gwella prosesau gwella perfformiad gan gynnwys gwella prosesau cynllunio busnes, defnyddio mesurau perfformiad clir a mesuradwy ac asesu gwerth am arian;<br>• sicrhau bod rheoli risg strategol yn rhan annatod o'u trefniadau rheoli a chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar lefel y cydbwyllgor neu'r bwrdd;<br>• datblygu eu trefniadau rheoli ariannol er mwyn sicrhau bod gweithgarwch cyllidebu, monitro ariannol ac adrodd yn cwmpasu'r holl incwm a gwariant perthnasol, gan gynnwys arian grant a gaiff ei wario drwy awdurdodau lleol;<br>• datblygu trefniadau craffu ar y cyd y consortia yn gyffredinol yn ogystal â gwaith craffu perfformiad a wneir gan awdurdodau unigol, a all gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol;<br>• sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau a threfniadau consortia yn agored ac yn dryloyw;<br>• adnabod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a mynd i'r afael ag ef; a phan fo gan staff fwy nag un cyflogwr, dylai consortia rhanbarthol sicrhau bod llinellau atebolrwydd yn glir a bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r rolau a gyflawnir; a<br>• datblygu strategaethau cyfathrebu cadarn ar gyfer ymgysylltu â phob rhanddeiliad allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A1 Gwella trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol mewn perthynas â materion pobl hŷn drwy wneud y canlynol:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y Cyngor ar wasanaethau pobl hŷn.<br>• ailalinio gwaith cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn er mwyn helpu i ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;<br>• penodi aelod yn hyrwyddwr gwasanaethau pobl hŷn; a<br>• lledaenu gwybodaeth am y penodiadau hyn i bob aelod o staff a rhanddeiliad a'i diweddaru yn rheolaidd.<br>A2 Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n cwmpasu gwaith holl adrannau perthnasol y Cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i faes iechyd a gofal cymdeithasol; a<br>• gweithio gyda thrigolion a phartneriaid i ddatblygu cynlluniau ac wrth ddatblygu blaenoriaethau a chytuno arnynt.<br>A3 Ymgysylltu'n well a phobl hŷn a gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei lledaenu iddynt drwy sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol a'u bod yn diwallu anghenion y rhai sy'n eu derbyn.<br>A4 Sicrhau y caiff perfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol eu rheoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y rhai y tu allan i faes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; a<br>• nodi mesurau i farnu mewnbynnau, allbynnau ac effaith fel y gellir deall effaith toriadau cyllidebol a chefnogi gweithgarwch goruchwylio a chraffu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A5 Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb drwy wneud y canlynol:<br>• nodi sut y bydd newidiadau i wasanaethau neu doriadau mewn cyllidebau yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig;<br>• mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gymerir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig;<br>• nodi nifer y bobl y gallai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd effeithio arnynt drwy nodi'r effaith ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig; a<br>• sicrhau bod gweithgarwch ategol megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaethau i ddeall yr effaith a gaiff newidiadau arfaethedig arnynt yn glir.<br><br>A6 Gwella'r ffordd y rheolir y Gronfa Gofal Canolraddol a sicrhau ei bod yn cael mwy o effaith drwy wneud y canlynol:<br>• pennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel y gellir barnu effaith y rhain dros amser;<br>• cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel y gellir gwerthuso prosiectau a ariennir ar sail gyfatebol yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa rai sy'n cael yr effaith gadarnhaol fwyaf a faint o gynlluniau sydd wedi'u prif ffrydio i gyllid craidd; ac<br>• ymgysylltu'n well â phob partner er mwyn sicrhau y caiff cymaint o bartneriaid â phosibl eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai - gwasanaethau hamdden | A1 Gwella gwaith cynllunio strategol ym maes gwasanaethau hamdden drwy wneud y canlynol:<br>• pennu gweledigaeth gytûn y Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• canolbwyntio ar sefyllfa'r Cyngor o fewn darpariaeth chwaraeon a hamdden y gymuned ehangach yn yr ardal; ac<br>• ystyried y potensial ar gyfer darparu gwasanaethau ar sail ranbarthol.<br><br>A2 Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn nodi'r model cyflawni mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytûn a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden sy'n ystyried y canlynol:<br>• argaeledd cyllid cyfalaf a chyllid refeniw yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf;<br>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;<br>• cyfleoedd i wella prosesau cynhyrchu incwm a lleihau 'cymhorthdal' y Cyngor;<br>• dadansoddi cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;<br>• cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y Cyngor o ran iechyd y cyhoedd;<br>• ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau y caiff barn ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr eu nodi'n glir;<br>• effaith opsiynau gwahanol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a<br>• chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai - gwasanaethau hamdden | A3 Sicrhau y caiff perfformiad gwasanaethau hamdden eu rheoli'n effeithiol drwy nodi cyfres o fesurau i alluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu mewnbynnau, allbynnau ac effaith. Dylai hyn gwmpasu perfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor a pherfformiad cyfleuster-benodol a chynnwys y canlynol:<br>• gwariant cyfalaf a refeniw;<br>• incwm;<br>• 'cymhorthdal' y cynghorau;<br>• ansawdd cyfleusterau a'r gwasanaeth a ddarperir;<br>• boddhad cwsmeriaid;<br>• llwyddiant mentrau 'masnachol newydd';<br>• data defnydd – nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau/cyfleusterau, pryd y cawsant eu defnyddio, ac ati; ac<br>• effaith hamdden o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau ym maes iechyd y cyhoedd.<br><br>A4 Gwella trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol mewn perthynas â gwasanaethau hamdden drwy wneud y canlynol:<br>• cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i'r pwyllgor(au) craffu;<br>• rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn helpu i sicrhau y gwneir penderfyniadau cadarn;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill; a<br>• defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol i nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru